Hawdd ei Ddeall

# Gofal Iechyd GIG Parhaus

## 4. Sut mae GIP yn cael ei drefnu



Mae’r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan **Lywodraeth Cymru**. Mae’n fersiwn hawdd ei ddeall o’r **Llyfryn Gwybodaeth am Ofal Iechyd GIG Parhaus ar gyfer Unigolion, Teuluoedd a Gofalwyr**.

**Hydref 2022**

# Cynnwys


**Tudalen**

**Am y llyfryn yma....3**

**Sut mae GIP yn cael ei drefnu?....6**

Pa mor hir fydd hyn yn ei gymryd?....8

Sut fydd fy GIP yn cael ei ddarparu?....9

Eich gofal a'ch cymorth....11

Taliadau Uniongyrchol a GIP....12

Lle mae eich gofal yn cael ei ddarparu....14

GIP yn eich cartref eich hun....16

GIP mewn hosbis....17

GIP mewn cartref gofal....17


Beth sydd yn digwydd os ydych chi'n byw mewn cartref gofal cost uchel yn barod?....20

Symud i gartref gofal mewn rhan wahanol o Gymru...21

Adolygiadau....22

**Geiriau anodd....26**

# Am y llyfryn yma




Mae’r llyfryn yma yn **rhan 4** o 5 canllaw hawdd eu deall i Ofal Iechyd GIG Parhaus.




Mae wedi ei ysgrifennu ar sail canllaw sydd wedi cael ei ysgrifennu gan Lywodraeth Cymru. Rydych chi’n gallu darllen y canllaw gwreiddiol yma: [llyw.cymru/gofal-iechyd-parhaus-y-gig-llyfryn-gwybodaeth-ar-gyfer-unigolion-teuluoedd-gofalwyr](llyw.cymru/gofal-iechyd-parhaus-y-gig-llyfryn-gwybodaeth-ar-gyfer-unigolion-teuluoedd-gofalwyr).

Mae 5 llyfryn hawdd eu deall:

1. **Beth ydy Gofal Iechyd Parhaus (GIP)?**
2. **Canllaw hawdd ei ddeall i asesiadau GIP**
3. **Pwy sydd yn gymwys i cael GIP?**
4. **Sut mae GIP yn cael ei drefnu?**
5. **Beth sydd yn digwydd os nad ydw i’n gymwys i gael GIP?**




Maen nhw ar gael yma: [llyw.cymru/gofal-iechyd-parhaus-y-gig-llyfryn-gwybodaeth-ar-gyfer-unigolion-teuluoedd-gofalwyr](llyw.cymru/gofal-iechyd-parhaus-y-gig-llyfryn-gwybodaeth-ar-gyfer-unigolion-teuluoedd-gofalwyr).

Mae’r llyfryn yma wedi cael ei wneud yn hawdd ei ddeall gan **Hawdd ei Ddeall Cymru**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi’n feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, cliciwch yma.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cysylltwch gyda Llywodraeth Cymru os ydych chi angen y llyfryn yma mewn unrhyw fformat arall.




Mae gwybodaeth am Ofal Iechyd GIG Parhaus ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yma: llyw.cymru/gofal-iechyd-parhaus-y-gig-llyfryn-gwybodaeth-ar-gyfer-unigolion-teuluoedd-gofalwyr

**Neu rydych chi’n gallu cysylltu gyda Llywodraeth Cymru am ragor o wybodaeth:**



**Drwy’r post:** Llywodraeth Cymru<br>
Parc Cathays<br>
Caerdydd<br>
CF10 3NQ



**Ar y ffôn:** 0300 0604400

**Drwy e-bost:** Cymorth@llyw.cymru



Mae gwybodaeth gyswllt ar gyfer eich bwrdd iechyd lleol ar gael yn **llyfryn 1 tudalen 16**.




Neu maen nhw ar gael ar wefan **Galw Iechyd Cymru**: 111.wales.nhs.uk/localservices/localhealthboards?locale=cy&term=A.

# Sut mae GIP yn cael ei drefnu?



Pan fyddwch chi'n cael gwybod mewn ysgrifen eich bod chi yn **gymwys** ar gyfer GIP, fe fyddwch chi hefyd yn derbyn:




- Eich cynllun gofal.




- Neu wybodaeth am beth sy'n digwydd nesaf os nad ydy eich cynllun gofal yn barod eto.



Mae **cymwys** yn meddwl bod gennych chi'r hawl i gael GIP oherwydd eich bod yn ateb yr amodau.



Eich Bwrdd Iechyd Lleol sydd yn gyfrifol am dalu am eich pecyn gofal, o'r diwrnod maen nhw'n derbyn penderfyniad y **TAD**.




Mae **TAD** yn fyr am **Tîm Aml-Ddisgyblaeth.** Mae'r **TAD** yn grŵp o weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol. Maen nhw'n gweithio gyda'i gilydd i weld os ydych chi'n **gymwys** ar gyfer GIP.




Am ragor o wybodaeth am y **TAD** ewch i **lyfryn 3 tudalen 10**.



Rydych chi'n gallu gofyn i'ch Bwrdd Iechyd Lleol dalu unrhyw arian rydych chi wedi ei wario ar eich gofal yn ôl:



- Ers y dyddiad maen nhw wedi derbyn penderfyniad y **TAD**
- neu o'r dyddiad y mae'r **TAD** yn gallu dweud bod gennych chi **angen iechyd sylfaenol** i ddechrau.

## Pa mor hir fydd hyn yn ei gymryd?




Os ydych chi'n **gymwys** ar gyfer GIP, fe ddylai eich pecyn gofal gael ei drefnu o fewn 2 wythnos i **gyfarfod y TAD**.




Mae gwybodaeth am **gyfarfod y TAD** ar gael yn **llyfryn 3 tudalen 10**.



Fe ddylai eich gofal fod yn ei le **8 wythnos** o'ch **asesiad** cyntaf a oedd yn dangos efallai bod gennych chi angen iechyd sylfaenol.




**Asesiad** ydy pan mae gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol yn gweithio gyda'i gilydd i benderfynu beth ydy eich anghenion. A sut y dylai eich anghenion gael eu hateb.



Er enghraifft, gallai hyn fod yr **Offeryn Rhestr Wirio**. Mae gwybodaeth am yr Offeryn Rhestr Wirio yn **llyfryn 2 tudalen 12**.



Mae hi'n iawn i hyn gymryd hirach nag 8 wythnos dim ond os ydych chi angen mwy o amser ar gyfer **adsefydlu** neu **ailalluogi**.

**Adsefydlu** ac **ailalluogi** ydy'r gofal a'r cymorth rydych chi'n eu cael ar ôl salwch neu ddamwain i'ch helpu chi i allu edrych ar ôl eich hun eto a byw mor annibynnol â phosibl.



Ni ddylai gymryd mwy nag 8 wythnos am unrhyw reswm arall.

## Sut fydd fy GIP yn cael ei ddarparu?



Fe fydd eich Bwrdd Iechyd Lleol yn penderfynu pa ofal rydych chi ei angen i ateb eich:



- anghenion iechyd
- ac anghenion gofal cymdeithasol

Fe ddylai eich Bwrdd Iechyd Lleol feddwl am:



- beth rydych chi ei eisiau



- unrhyw ofal cymdeithasol rydych chi’n ei gael yn barod gan eich Awdurdod Lleol




- ac anghenion eraill sydd gennych, y tu allan i GIP.



Fe fydd eich Bwrdd Iechyd Lleol yn gweithio yn agos gyda chi i gytuno ar eich gofal GIP er mwyn ateb eich anghenion.



Efallai y bydd yn wahanol i’r pecyn oedd gennych chi o dan eich gofal cymdeithasol.

## Eich gofal a'ch cymorth



Efallai bod gennych chi weithwyr gofal ar hyn o bryd y mae gennych chi berthynas dda gyda nhw.



Fe ddylai eich Bwrdd Iechyd Lleol a'ch Awdurdod Lleol geisio gwneud yn siŵr nad ydy unrhyw ofal sydd gennych ar hyn o bryd yn cael ei effeithio.



Os oes angen gwneud newidiadau, fe ddylen nhw gael eu cynllunio yn dda. Fe ddylai unrhyw newid i'ch gofal fod yn llyfn ac yn ddiogel.

## Taliadau Uniongyrchol a GIP




Arian ydy **Taliadau Uniongyrchol** rydych chi'n gallu ei gael gan eich Awdurdod Lleol yn lle gwasanaeth. Rydych chi'n gallu ei ddefnyddio i brynu eich cymorth a'ch gwasanaethau eich hun.



Dydy eich Bwrdd Iechyd Lleol ddim yn gallu rhoi **Taliadau Uniongyrchol** i chi.



Os ydych chi'n cael **Taliadau Uniongyrchol** nawr ac yna yn dod yn **gymwys** ar gyfer GIP, fe fydd eich **Taliadau Uniongyrchol** yn stopio.



**Rhaid** i'ch Bwrdd Iechyd Lleol weithio gyda chi i wneud yn siŵr bod gennych chi **lais a rheolaeth** dros eich gofal a'ch cymorth.



**Rhaid** i'ch Bwrdd Iechyd Lleol eich trin fel partner cyfartal wrth gynllunio eich gofal.



**Rhaid iddyn nhw wneud eu gorau i gadw'r un staff ag oedd gennych chi o'r blaen. Os mai dyna rydych chi ei eisiau.**



Fe ddylai'r Bwrdd Iechyd Lleol feddwl am ffyrdd gwahanol o roi llais a rheolaeth i chi dros eich gofal a'ch cymorth. Er enghraifft:




- Gallai'r Bwrdd Iechyd Lleol gyflogi'r staff rydych chi'n eu defnyddio yn barod. Er enghraifft, cynorthwy-ydd personol rydych chi eisiau eu cadw. Ar yr amod bod y sgiliau cywir gyda nhw i barhau i fodloni eich anghenion chi.



- Gallai'r Bwrdd Iechyd Lleol dalu'r arian am eich gofal i mewn i **Ymddiriedolaeth Defnyddiwr Annibynnol**. Grŵp o bobl ydy hwn sydd yn dod yn gyfrifol am ddarparu eich gofal. Mae hyn yn gallu cynnwys perthnasau neu bobl eraill rydych chi'n ymddiried ynddyn nhw.

Efallai y byddwch chi'n gallu cadw **rhywfaint** o'ch **Taliadau Uniongyrchol** ar gyfer:



- eich gofal cymdeithasol y mae'r Awdurdod Lleol yn parhau i fod yn gyfrifol amdano




- nad yw'n rhan o'ch cynllun gofal GIP.



Rhaid i bawb weithio gyda'i gilydd, i roi dewisiadau i chi sydd yn eich helpu chi i aros mor annibynnol â phosibl.

## Lle mae eich gofal yn cael ei ddarparu



Fe ddylai eich Bwrdd Iechyd Lleol weithio yn agos gyda chi pan maen nhw'n ysgrifennu eich cynllun gofal.



Mae angen meddwl am beth rydych chi a'ch teulu neu **eiriolydd** ei eisiau.



Gyda'ch gilydd fe fyddwch chi'n penderfynu lle bydd eich gofal yn cael ei ddarparu. Mae'n gallu bod:



- yn eich cartref
- mewn cartref gofal
- mewn tai â chymorth
- mewn **hosbis** – lle mae pobl yn cael gofal arbenigol a chymorth pan maen nhw yn agos at ddiwedd eu bywyd.



Fe fydd eich Bwrdd Iechyd Lleol hefyd yn meddwl am risgiau a manteision y lle mae eich gofal yn cael ei ddarparu.



Fe ddylech chi gael digon o arian i dalu am y gofal sydd yn ateb eich anghenion orau.



Os ydych chi ddim yn hapus gyda’r pecyn cymorth mae eich Bwrdd Iechyd Lleol wedi ei awgrymu, dywedwch wrthyn nhw.




Os nad ydych chi’n gallu datrys hyn gyda’ch Bwrdd Iechyd Lleol, rydych chi yn gallu cwyno.




Rydych chi’n gallu defnyddio proses gwynion y GIG. Am ragor o wybodaeth am hyn ewch i **llyfryn 1 tudalen 21**.

## GIP yn eich cartref eich hun

Fe fydd gofal yn cael ei roi i chi yn eich cartref gan:



- Ofalwyr
- Nyrsus ardal
- Unrhyw staff eraill sydd eu hangen

## GIP mewn hosbis



Os ydych chi'n agos at ddiwedd eich bywyd, efallai y byddwch chi angen GIP mewn hosbis.



Ond efallai eich bod eisiau aros gartref ar yr amser yma. Eich dewis chi ydy hyn.

## GIP mewn cartref gofal



Mae rhai pobl yn byw mewn cartrefi gofal sydd yn darparu **gofal personol yn unig**.



Mae rhai pobl yn byw mewn cartrefi gofal sydd yn darparu gofal personol a **gofal nyrsio**.

Os ydych chi'n byw mewn cartref gofal ac yn dod yn **gymwys** ar gyfer GIP:




- Fe fydd y GIG yn gwneud contract gyda'ch cartref gofal. Mae hyn yn gytundeb cyfreithiol ysgrifenedig rhwng y GIG a'ch cartref nyrsio.



- Fe fydd y GIG yn talu eich cartref gofal i ddarparu eich **holl** wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.



- **Ac** fe fydd y GIG yn talu eich ffioedd llety i'ch cartref gofal – fel rhent a bwyd.

Dyma rai pethau pwysig i wybod amdanyn nhw:



- Os oes angen i chi symud i gartref gofal, fe ddylai pobl feddwl am beth rydych chi ei eisiau wrth ddewis cartref gofal.



- Fe ddylech chi fyw mewn cartref gofal sydd yn ateb eich anghenion orau. Does dim gwahaniaeth os oes gan y Bwrdd Iechyd Lleol gontractau yn barod gyda rhai cartrefi gofal.




- Efallai bod rhai pobl angen cartref gofal cost uwch oherwydd bod ganddyn nhw rai anghenion sydd yn methu cael eu trin yn unman arall.



Os ydych chi angen cartref gofal cost uwch fe ddylai'r Bwrdd Iechyd Lleol feddwl am dalu'r gost ychwanegol yma. Rhaid iddyn nhw gydbwyso gwario arian cyhoeddus yn ddoeth gydag ateb eich anghenion a beth rydych chi eisiau yn y ffordd orau.



- Os ydych chi'n byw mewn cartref gofal yn barod ac eisiau aros yno, mae angen i'ch Bwrdd Iechyd Lleol edrych i weld os ydy eich anghenion yn gallu cael eu hateb yno. Os na, fe fydd angen i chi siarad am eich dewisiadau gyda'ch Bwrdd Iechyd Lleol.

## Beth sydd yn digwydd os ydych chi'n byw mewn cartref gofal cost uchel yn barod?



Os ydych chi'n byw mewn cartref gofal cost uchel yn barod pan rydych chi'n dod yn **gymwys** ar gyfer GIP, mae angen i chi siarad gyda'ch Bwrdd Iechyd Lleol i weld os ydych chi'n gallu aros yno.




Yn enwedig os ydy eich cartref gofal yn costio mwy na byddai'r Bwrdd Iechyd Lleol yn ei dalu fel arfer.

Rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol feddwl am:



- Pam rydych chi eisiau aros yno



- Beth fyddai orau i chi



- Beth fyddai'r risgiau o'ch symud chi



Fe ddylai'r Bwrdd Iechyd Lleol feddwl am dalu am eich gofal cost uchel tra eu bod nhw yn penderfynu parhau i dalu amdano.

## Symud i gartref gofal mewn rhan wahanol o Gymru




Efallai eich bod eisiau symud i gartref gofal sydd yn agosach at eich teulu. Efallai bod hyn mewn ardal Bwrdd Iechyd Lleol arall.



Rydych chi'n gallu gofyn i'ch Bwrdd Iechyd Lleol os ydych chi'n gallu gwneud hyn. Nhw sy'n penderfynu os ydyn nhw'n caniatáu hyn.



Os ydych chi'n symud i ardal arall, eich Bwrdd Iechyd Lleol fydd yn parhau yn gyfrifol am dalu eich GIP.

## Adolygiadau



Fe ddylai eich GIP gael ei wirio i wneud yn siŵr:




- Bod eich cynllun gofal yn parhau i ateb eich anghenion
- Bod ech gofal yn parhau i ateb eich anghenion



Yn y rhan fwyaf o achosion, fydd dim rhaid edrych i weld os ydych chi'n parhau i fod yn **gymwys** ar gyfer GIP.




Fe fydd eich GIP yn cael ei wirio o fewn 3 mis i'r amser y cafodd eich cynllun gofal ei ddarparu. Os nad oes angen edrych arno yn gynharach.




Yna fe fydd yn cael ei wirio bob blwyddyn. Ond os ydy eich iechyd yn debygol o fynd yn waeth, fe ddylid edrych ar eich GIP yn fwy aml.




Os ydy eich sefyllfa yn mynd yn waeth yn sydyn, fe ddylai eich GIP gael ei wirio o fewn 2 wythnos.



Fe ddylech chi gael gwybod pa ddyddiadau y bydd eich GIP yn cael ei edrych arno neu yn cael ei adolygu.



Os ydy unrhyw un o'ch anghenion gofal neu gymorth yn newid, efallai y bydd yr arian rydych chi'n ei gael i dalu am eich gofal yn newid.




Ni ddylai eich arian gael ei stopio hyd nes y bydd eich Bwrdd Iechyd Lleol a'ch Awdurdod Lleol wedi gwneud **asesiad** arall o'ch anghenion i ddechrau.



Rhaid iddyn nhw weithio gyda'i gilydd gyda chi pan maen nhw'n meddwl am newid eich gofal.




Os nad ydych chi'n **gymwys** ar gyfer GIP mwyach, rhaid i'ch Bwrdd Iechyd Lleol ddarganfod sut y bydd eich gofal yn cael ei dalu cyn stopio eich arian GIP.




Rhaid i unrhyw newidiadau i'ch gofal sy'n cael eu hawgrymu gael eu rhoi i chi mewn ysgrifen.




Os nad ydy eich Bwrdd Iechyd Lleol a'ch Awdurdod Lleol yn gallu cytuno ar y newidiadau, fe ddylai'r arian rydych chi'n ei gael yn barod aros yn ei le hyd nes y maen nhw'n gallu cytuno.




Os ydych chi’n anhapus gydag unrhyw ran o’r adolygiad, siaradwch gyda’ch **Cydgysylltydd Gofal**.




Rydych chi’n gallu gofyn am **asesiad** arall o’ch anghenion. Ac i’ch cynllun gofal gael ei edrych arno eto.




Os ydych chi yn parhau i fod yn anhapus ar ôl hyn, rydych chi’n gallu cwyno gan ddefnyddio proses gwynion y GIG.




Am ragor o wybodaeth am hyn ewch i **llyfryn 1, tudalen 21**.

# Geiriau anodd

## Adsefydlu ac Ailalluogi

Adsefydlu ac ailalluogi ydy'r gofal a'r cymorth rydych chi'n eu cael ar ôl salwch neu ddamwain i'ch helpu chi i allu gwneud eich tasgau o ddydd i ddydd.

## Asesiad

Asesiad ydy pan mae gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol yn dod at ei gilydd i benderfynu beth ydy eich anghenion. A sut y dylai eich anghenion gael eu hateb.

## Cymwys

Mae cymwys yn meddwl bod gennych hawl i gael GIP oherwydd eich bod yn ateb yr amodau.

## Taliadau Uniongyrchol

Taliadau Uniongyrchol ydy arian rydych chi'n gallu ei gael yn lle gwasanaeth. Rydych chi'n gallu ei ddefnyddio i brynu eich cymorth a'ch gwasanaethau eich hun.

## Tîm Aml-Ddisgyblaeth neu TAD

Tîm Aml-Ddisgyblaeth ydy grŵp o weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol. Maen nhw'n gweithio gyda'i gilydd i wneud eich asesiad GIP. Rydyn ni yn eu galw yn TAD yn fyr.